**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2002 |
| Amser: | 9:15am hyd 12:30pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Sue Essex, Gweinidog yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| June Milligan (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Steve Lucas (eitem 2) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Tom Cassidy (eitem 3) | Prif Weithredwr Cadw |
| Martin Rolph (eitem 3) | Adolygydd Pum Mlynedd Cadw |
| Denzil Jones (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

***Sefydliadau Allanol:***

| | |
|---|---|
| Paul Loveluck (eitem 3) | Ymgynghorydd Adolygu Treftadaeth |
| David Hibbs (eitem 4) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |
| Jonathan Melsom (eitem 4) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |

***Yr Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau, y sawl a oedd yn bresennol ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod. Daeth ymddiheuriadau i law gan Janet Davies.

1.2 Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor ei bod, y diwrnod blaenorol, wedi cyhoeddi Datganiad Cabinet Ysgrifenedig ar achlysur lansio'r Fenter Gyrru Arafach, Strydoedd Saffach.

**Eitem 2: Adolygiad bioamrywiaeth: dadansoddiad o'r materion allweddol** - EPT-18-02(p1)

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu barn ar faterion ac argymhellion i'w cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor ar yr adolygiad. Rhoddodd y Gweinidog y newyddion diweddaraf ar y camau yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd ym maes bioamrywiaeth yn lleol, yn enwedig cyhoeddi rhestr o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf ar gyfer gwarchod amrywiaeth biolegol, sy'n ofynnol dan a74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnwys argymhellion yn y meysydd canlynol, fel y'u hamlinellir yn y papur, ac y byddai'n ystyried adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf:

- Ymrwymiad gwleidyddol i fioamrywiaeth ar lefel genedlaethol a lleol;
- Sicrhau bod adnoddau ar gael i weithredu ar yr ymrwymiad gwleidyddol;
- Gweithredu'n lleol drwy bartneriaethau;
- Sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd ar gael.

**Eitem 3: 'Gwerthfawrogi ein Hetifeddiaeth'** - EPT-18-02 (p 2)

3.1 Rhoddodd y Gweinidog a'r sawl oedd yn bresennol adroddiad ar Adolygiad Pum Mlynedd Cadw, a'r fenter ehangach i nodi blaenoriaethau a chyfeiriad i'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn y dyfodol.

3.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y materion canlynol:

- Cwmpas yr adolygiad - cefnogaeth i ehangu gwaith adolygu Cadw i gwmpasu'r amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol, a'r angen i gydlynu gwaith y gwahanol asiantaethau perthnasol wrth warchod a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol;

- Blaenoriaethau cadwraeth - yr angen i gynnwys cymunedau lleol yn y broses o benderfynu ar flaenoriaethau cadwraeth hanesyddol a diwylliannol;

- Cefnogi cadwraeth - rôl allweddol addasu wrth warchod adeiladau hanesyddol, a'r posibilrwydd o gymorth ariannol ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig;

- Potensial treftadaeth - yr angen i fanteisio i'r eithaf ar botensial economaidd treftadaeth naturiol ac adeiledig Cymru, yn enwedig y potensial twristaidd.

3.3 Byddai'r Gweinidog yn derbyn adroddiad ar reoli'r amgylchedd hanesyddol cyn y Nadolig, gyda phapur ymgynghorol yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd iddynt gael gwybod am ganlyniad yr ymgynghoriad.

3.4 Roedd Adolygiad Pum Mlynedd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n perthyn i'r portffolio diwylliant, hefyd ar y gweill. Byddai copi o'r adroddiad ar gael i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth pan gâi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Diwylliant.

**Eitem 4: Rheilffyrdd yng Nghymru** - EPT-18-02 (p 3) ac EPT-18-02 (p 4)

4.1 Crynhodd David Hibbs o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol hynt y gwaith o osod masnachfraint Cymru a'r Gororau. Estynnwyd gwahoddiad i bedwar cynigydd adolygu eu cynigion: Arriva; Grwp National Express; Serco Rail/Dutch Railways; a GB Rail/Connex. Estynnwyd gwahoddiad i gynigwyr roi amcan o gost cynnig sylfaenol (y gwasanaethau presennol) a gwahanol opsiynau ar gyfer:

- gwell gwasanaethau (gan gynnwys, er enghraifft, Glynebwy a moderneiddio gorsafoedd);
- newid gwasanaethau (gan ymateb i newidiadau ymhlith gweithredwyr eraill);
- gwasanaethau y gellid eu darparu pe bai lefel cymhorthdal y fasnachfraint yn cael ei gostwng.

4.2 Byddai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn pwyso a mesur y cynigion o ran gwerth am arian, manteision economaidd a hygrededd cyffredinol. Roedd disgwyl i'r cynigydd buddugol gael ei enwi ym mis Ebrill, gyda'r fasnachfraint newydd yn dod i rym ar 12 Hydref 2003.

4.3 Cododd Aelodau'r prif bryderon canlynol am y fasnachfraint:

- Lefelau cymhorthdal - diffyg tryloywder, gan nad oedd y ffigurau sylfaenol presennol na'r ffigurau disgwyliedig yn wybodaeth gyhoeddus, ac na ellid gwarantu na châi'r cymhorthdal ei gwtogi;

- Gwerthuso gwasanaethau - yr angen i ganolbwyntio ar ddibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau, a mynd i'r afael â'r cymhelliad anarferol presennol o leihau cysylltiadau gwasanaethau er mwyn osgoi dirwyon am ddiffyg prydlondeb;

- Mwy o wasanaethau - yn enwedig i'r gorllewin o Abertawe lle nad yw'r achos dros eu gwella wedi'i gyflwyno gystal ag a wnaed ar gyfer gweddill Cymru;

- Cydlynu gwasanaethau - yr angen i gyflwyno amserlen sydd wedi'i hysbysebu'n helaeth ar gyfer Cymru a'r Gororau a gwasanaethau trenau a bysiau allweddol eraill gan sicrhau cysylltiadau.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 20 Tachwedd 2002** -EPT-16-02 (cofnodion)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 20 Tachwedd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.15am ddydd Mercher 18 Rhagfyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rhagfyr 2002**